Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLESIANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS

Dogfen Ymgynghori

# Llunio Dyfodol Cymru:

## Defnyddio Cerrig Milltir Cenedlaethol i fesur cynnydd ein Cenedl (cam dau)

Cynigion ar gyfer gosod yr ail gyfres o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Mehefin 2022
**Camau i'w cymryd:** Ymatebion erbyn 12 Medi 2022

**llyw.cymru**

# Cynnwys

4 Adran 1. Cyflwyniad i Lunio Dyfodol Cymru

6 Adran 2. Cerrig Milltir Cenedlaethol

26 Adran 3. Cwestiynau'r ymgynghoriad

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45341,
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | **Llunio Dyfodol Cymru**<br>Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar osod cerrig milltir cenedlaethol i Gymru a fydd yn cynorthwyo Gweinidogion i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwerthoedd arfaethedig ar gyfer wyth carreg filltir genedlaethol. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.<br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh<br>Tudalennau gwe Llywodraeth Cymru am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru<br>Tudalennau gwe Senedd Cymru am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103<br>Mae blog wedi'i sefydlu i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn sydd ar gael yn www.lluniodyfodolcymru.blog.llyw.cymru/ |
| **Manylion cyswllt:** | **I gael rhagor o wybodaeth:**<br>**E-bost:** lluniodyfodolcymru@llyw.cymru |

## Sut i ymateb

Cyflwynwch eich ymateb erbyn hanner nos ar 12 Medi 2022 mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein **ffurflen ar-lein**
- Lawrlwytho a llenwi ein **ffurflen ar-lein** a'i hanfon drwy e-bost i LlunioDyfodolCymru@llyw.cymru

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol sydd gennym amdanoch a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgyngoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Wedyn, byddwn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

**Swyddog Diogelu Data**
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: ico.org.uk

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Bydd unrhyw waith o'r fath ond yn cael ei gyflawni dan gontract. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel. Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni chaiff unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch weld y ddogfen hon mewn ieithoedd amgen. Os oes ei hangen arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni.

# Termau allweddol

## Datblygu Cynaliadwy

Ystyr datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, i gyflawni'r nodau llesiant.

## Nodau llesiant

Mae'r saith nod llesiant yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn cynnig gweledigaeth gyffredin, ac yn disgrifio'r canlyniadau o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a fydd yn gwneud Cymru'n genedl fwy cynaliadwy.

## Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae hynny'n golygu meddwl am y dyfodol wrth wneud yr hyn a wnawn. Mae pum ffordd o weithio sy'n ffurfio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef hirdymor; atal; integreiddio; cydweithio a chynnwys.

## Dyletswydd Llesiant

Mae gan rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i ymgymryd â datblygu cynaliadwy – dyma'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon rhaid i gyrff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion a fydd yn sicrhau eu bod yn cyfrannu gymaint â phosibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion.

## Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

I'n helpu i wybod a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at y saith nod llesiant, mae gennym 50 o ddangosyddion cenedlaethol. Lluniwyd y dangosyddion cenedlaethol i gynrychioli'r canlyniadau a ddymunir i Gymru a'i phobl. Bydd y rhain yn helpu i ddangos y cynnydd tuag at y saith nod llesiant. Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol na gweithredoedd gan sefydliad unigol. Maent yn rhoi darlun cenedlaethol mwy cyfannol o'r hyn sy'n newid.

## Cerrig Milltir Cenedlaethol

Mae'r cerrig milltir cenedlaethol yn gyfres o fesurau ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol sy'n nodi ein disgwyliadau o'r hyn y dylai'r dangosyddion ei ddangos yn y dyfodol. Maent yn ein helpu i ddeall a yw'r dangosyddion cenedlaethol yn symud i'r cyfeiriad cywir ac yn ein symud fel cenedl tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Gosodwyd y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021.

## Adroddiad Llesiant Cymru

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad ar gynnydd Cymru tuag at gyflawni'r saith nod llesiant, o'r enw Adroddiad Llesiant Cymru. Mae'n defnyddio'r 50 dangosydd cenedlaethol a data eraill.

ADRAN 1

# Cyflwyniad i Lunio Dyfodol Cymru


**Yng Nghymru rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Mae gennym gyfraith yng Nghymru sy'n ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant, er lles pobl a'r blaned, yn awr ac at y dyfodol.**

Enw'r gyfraith yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cyfeirir ati fel y Ddeddf o hyn ymlaen). Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol mewn ffordd sy'n gysylltiedig â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Nod y Ddeddf yw hwyluso canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru a'r blaned, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Hanfod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant sy'n anelu at feithrin Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, iachach a chydnerth sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Yn 2021 datblygodd Llywodraeth Cymru ei naratif ynghylch Llunio Dyfodol Cymru. Roedd hwn yn dwyn ynghyd ein cyfrifoldebau i bennu cerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol, ac i baratoi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol fel y gallant, gyda'i gilydd, ein helpu i symud tuag at y nodau llesiant.

Mae'r darnau hyn o waith yn cael eu harwain gan y pum ffordd o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy – gan feddwl am y tymor hir, cydweithio, atal, cynnwys ac integreiddio.



Mae Cymru'n gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

I'n helpu i ddeall dyfodol Cymru, mae gennym **ddangosyddion** llesiant cenedlaethol, a'r llynedd gosodwyd ein **cerrig milltir** cenedlaethol cyntaf i ddarparu dull o fonitro cynnydd cenedlaethol tuag at y saith nod llesiant. Yn ogystal, y llynedd, cyhoeddwyd adroddiad tueddiadau'r dyfodol a oedd yn nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar y tueddiadau hynny.

Yn 2016, gosodwyd 46 o ddangosyddion cenedlaethol (y dangosyddion) i'n helpu i fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant. Caiff y dangosyddion eu diweddaru drwy gydol y flwyddyn, wrth i ddata newydd ymddangos. Mae'r adroddiad blynyddol Llesiant Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol, gan gyfeirio at y dangosyddion ynghyd â data perthnasol eraill, ac o eleni ymlaen byddwn yn dechrau cynnwys adroddiadau am y cerrig milltir lle bo data ar gael.

Yn 2019 gwnaethom ymgynghori ar ddatblygiad cychwynnol cerrig milltir cenedlaethol, gan amlinellu ein huchelgeisiau ar gyfer y gwaith, cytuno ar feini prawf ar gyfer eu gosod a nodi set fach y byddem yn canolbwyntio ein hymdrechion arni. Parhaodd y gwaith o fireinio'r dull hwn yn ystod 2020 a chyfnod mwyaf heriol y pandemig Covid ac yna yn 2021 ymgynghorwyd ar gam cyntaf y cerrig milltir cenedlaethol a newidiadau i'r dangosyddion cenedlaethol.

Ar sail canlyniad ymgynghoriad 2021 rydym wedi ychwanegu 4 dangosydd cenedlaethol arall ac wedi gosod y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol. Roedd yr ychwanegiadau at y set o ddangosyddion yn cynnwys mesurau newydd ar gyfiawnder, teithio, costau mewn perthynas â thai a chynhwysiant digidol, a oedd i gyd yn faterion y dywedwyd wrthym eu bod yn rhan fwy amlwg o lunio ein llesiant cenedlaethol nag yr oeddent cyn y pandemig.

Bydd y set estynedig o ddangosyddion cenedlaethol yn parhau i'n helpu i fesur cynnydd tuag at y saith nod llesiant a'n taith tuag at ddod yn Gymru decach, wyrddach a mwy llwyddiannus.

Bydd y gyfres gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol yn sbarduno cydweithio a byddant yn ddull allweddol o fesur cyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen mewn nifer o feysydd allweddol. Yn eu hanfod, maent wedi'u hanelu at sbarduno cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ac maent yn adlewyrchu ein penderfynoldeb i wneud hyn.

Yr ymgynghoriad hwn yw ail ran ein gwaith o ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol ac unwaith y bydd wedi'i gyflawni bydd yn rhoi set o 17 carreg filltir i ni fesur ein cynnydd yn erbyn y nodau llesiant.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried eich barn, ac yna caiff set derfynol o gerrig milltir cenedlaethol cam dau eu gosod gerbron y Senedd erbyn diwedd 2022.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ochr yn ochr â gosod y cerrig milltir cenedlaethol.

Adran 2

# Cerrig Milltir Cenedlaethol

## Pam rydym yn gosod cerrig milltir cenedlaethol?

**Mae'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru yn rhoi disgrifiad o Gymru sy'n gyfiawn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Mae cynnydd tuag at y nodau llesiant hyn yn dibynnu ar gamau gweithredu gan bawb yng Nghymru, yn enwedig y cyrff cyhoeddus hynny sydd â dyletswydd i gymryd camau i gyflawni'r nodau llesiant. Rydym yn mesur y nodau llesiant drwy'r dangosyddion cenedlaethol, a chredwn y gall gosod cerrig milltir cenedlaethol yn erbyn y dangosyddion hyn helpu i ysgogi cydweithio, yn ogystal â'n helpu i ddeall cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.**

Rydym yn gosod cerrig milltir cenedlaethol eleni yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru gryfach, decach a gwyrddach.

## Beth yw carreg filltir genedlaethol?

Mae carreg filltir genedlaethol i Gymru yn nodi cyd-uchelgais fesuradwy sy'n disgrifio cyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen mewn meysydd allweddol o dan y saith nod llesiant. Byddant yn ein helpu i ddeall a monitro ein cynnydd ar y cyd a gweld a ydym fel cenedl yn teithio i'r cyfeiriad cywir ac ar y cyflymder cywir tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid gosod cerrig milltir "*...y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddent yn cynorthwyo i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant.*" Wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru bennu sut y byddwn yn gwybod bod y garreg filltir honno wedi ei chyflawni ac erbyn pryd mae angen ei chyflawni.

Gallai carreg filltir genedlaethol fod yn darged penodol, neu'n ystod, neu'n ffordd arall o'n helpu i ddeall ein bod ar y trywydd iawn.

Nid yw cerrig milltir cenedlaethol yn dargedau perfformiad ar gyfer unrhyw sefydliad unigol: dulliau ydynt o fesur llwyddiant ar y cyd yng Nghymru. Gall cyfraniadau ddod gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal ag unigolion a chymunedau. Mae gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf gyfrifoldeb i weithredu ac i gyfrannu at gyflawni'r nodau.

Ein huchelgais yw i'r cerrig milltir cenedlaethol ddod yn gatalydd ar gyfer cydweithio, ac yn fesur allweddol o gyflymder a graddfa'r newid mewn nifer o feysydd allweddol.

## Sut y dewiswyd pa gerrig milltir i'w gosod?

Mae ymgynghoriad 2019 Sut fedrwn ni helpu Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd y genedl? yn nodi'r dangosyddion a gynigiwyd gennym i osod cerrig milltir cenedlaethol yn eu herbyn, a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis y meysydd hyn.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gwnaethom waith pellach ar fireinio'r set fach o ddangosyddion y byddai cerrig milltir cenedlaethol yn cael eu gosod yn eu herbyn.

Ym mis Gorffennaf 2021, ymgynghorwyd ar werthoedd ar gyfer cerrig milltir cenedlaethol yn erbyn y set fach hon o ddangosyddion cenedlaethol ac ym mis Rhagfyr 2021 cyhoeddwyd y gyfres gyntaf o 9 carreg filltir genedlaethol. Rhestrir y rhain isod:

| Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol | Carreg Filltir Genedlaethol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif 5 Canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw | Cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050 | | | • | • | • | | |
| Rhif 8 Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol | Bydd gan 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau ar lefel 3 neu uwch erbyn 2050<br>Bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050 | • | | • | • | | | |
| Rhif 14 Ôl troed byd-eang Cymru | Dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y bydd Cymru'n ei defnyddio erbyn 2050 | • | • | | | | | • |
| Rhif 17 Gwahaniaeth cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd | Dileu'r bwlch cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050 | • | | | • | | | |
| Rhif 21 Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth | Dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur | • | | • | • | | | |
| Rhif 22 Canran y bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran | Bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050 | • | | • | • | • | | |
| Rhif 37 Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg | Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | | | | | • | • | • |
| Rhif 41 Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru | Bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn cyrraedd sero net erbyn 2050 | • | • | • | | | | • |

## Allwedd

1 Cymru lewyrchus
2 Cymru gydnerth
3 Cymru iachach
4 Cymru sy'n fwy cyfartal
5 Cymru o gymunedau cydlynus
6 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

# Amserlenni ar gyfer gosod cerrig milltir cenedlaethol


Amharodd y pandemig COVID-19 ar ein gallu i gasglu peth o'r data a ddefnyddiwn i fesur cynnydd tuag at nifer o'r dangosyddion. Achosodd hyn oedi yn y gwaith arfaethedig ar ddiwygio'r dangosyddion a datblygu cerrig milltir cenedlaethol yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol 2019.

Felly, penderfynwyd defnyddio dull dau gam o bennu'r cerrig milltir cenedlaethol.

Cafodd y gyfres gyntaf o naw carreg filltir genedlaethol eu pennu yn 2021. Dyma'r meysydd lle'r oedd y pandemig COVID-19 wedi effeithio llai ar y data ategol neu lle roeddem yn cynnig gwneud targed oedd yn bodoli eisoes, ac yr oedd cefnogaeth eang iddo, yn garreg filltir genedlaethol i Gymru.

Rydym bellach yn cyflwyno ail gam y cerrig milltir cenedlaethol yn dilyn gwaith i liniaru'r tarfu ar y ffynonellau data ategol ac i sicrhau bod gennym gerrig milltir cenedlaethol cadarn sy'n cael eu hategu'n dda.

## Dull dau gam o ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol



## Cerrig milltir Cam Dau

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein syniadau ar werthoedd drafft ar gyfer cerrig milltir cenedlaethol mewn wyth maes polisi, a dyma'r meysydd yr ydym yn ceisio barn arnynt yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd pob carreg filltir genedlaethol yn cyfrannu at nifer o'r nodau llesiant ac, o'u hystyried gyda'i gilydd, bydd hyn yn rhoi darlun da o gynnydd ein cenedl.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar werthoedd drafft ar gyfer yr ail gyfres hon o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru, i'w gosod gerbron y Senedd cyn diwedd y flwyddyn. Datblygwyd y gwerthoedd hyn gyda rhanddeiliaid drwy nifer o fforymau, digwyddiadau ymgysylltu a thrafodaethau.

| | Dangosyddion Llesiant Cenedlethol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif 2** | Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig | | | ● | ● | | | |
| **Rhif 3** | Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw | | | ● | ● | ● | ● | |
| **Rhif 10** | Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen | ● | | ● | ● | | | |
| **Rhif 18** | Tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| **Rhif 28** | Canran y bobl sy'n gwirfoddoli | | | | | ● | ● | ● |
| **Rhif 29** | Sgôr lles meddyliol cymedrig | | | ● | ● | | | |
| **Rhif 33** | Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol | ● | ● | ● | | | | ● |
| **Rhif 44** | Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru | ● | ● | | | ● | ● | ● |

# Gwerthoedd a gynigir ar gyfer ail gam y cerrig milltir cenedlaethol i Gymru

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi ein cynigion ar gyfer ail gam y cerrig milltir cenedlaethol a'r gwerthoedd yr hoffem gael eich barn arnynt. Mae cwestiynau sy'n ymwneud â phob carreg filltir genedlaethol arfaethedig wedi'u cynnwys yn y **ffurflen ar-lein**.

## Carreg Filltir 1:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 2: Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig** | | | ● | ● | | | |

| | |
|---|---|
| **Carreg Filltir #1** | Cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050 |

## Newid i'r dull ar gyfer dangosydd cenedlaethol

Rydym yn bwriadu newid y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r bwlch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes iach ar gyfer y dangosydd cenedlaethol. Roedd yn arfer cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r mynegai goleddfol o anghydraddoldeb (SII), ond bydd bellach yn newid i'r gwahaniaeth absoliwt rhwng y cwintel lleiaf difreintiedig a'r cwintel mwyaf difreintiedig. Mae'r ddau ddull yn mesur y gwahaniaeth rhwng y cwintel mwyaf difreintiedig a'r cwintel lleiaf difreintiedig. Yr hyn y mae'r dull gwahaniaeth absoliwt yn ei wneud yw tynnu'r cwintel mwyaf difreintiedig o'r cwintel lleiaf difreintiedig ar gyfer ardal benodol. Mae'r mynegai goleddfol o anghydraddoldeb yn fesur cymhleth pwysoledig sy'n ystyried yr is-grwpiau eraill – cwintelau amddifadedd – gan ddefnyddio model atchweliad. Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynghori bod defnyddio'r dull gwahaniaeth absoliwt yn gwella sefydlogrwydd y mesur ar lefel leol. Mae hefyd yn dechnegol haws ei fesur a'i ddeall. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi'r SII ar lefel genedlaethol. Un newid ychwanegol yw bod yr Arsyllfa wedi bod yn defnyddio Arolwg Iechyd Cymru yn hanesyddol i fesur disgwyliad oes iach a'i fwlch anghydraddoldeb. Ar ôl i Arolwg Iechyd Cymru ddod i ben yn 2015, nid oedd hyn yn bosibl mwyach. Yn hytrach, penderfynodd yr Arsyllfa ddefnyddio'r un arolwg â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sef yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer disgwyliad oes iach yng Nghymru sy'n seiliedig ar gyfnod 2018-20 yn rhoi disgwyliad oes iach ar 61.5 o flynyddoedd i ddynion a 62.4 o flynyddoedd i fenywod. Fodd bynnag, er bod y ffigurau hyn yn darparu cyfartaledd ar gyfer disgwyliad oes iach ar draws y boblogaeth, mae bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y rhannau mwyaf difreintiedig a'r rhannau lleiaf difreintiedig o Gymru.

Gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae data'r ONS ar gyfer 2018-20 yn nodi'r bwlch absoliwt mewn disgwyliad oes iach rhwng cwintel mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig Cymru, sef 13.4 o flynyddoedd i ddynion ac 16.9 o flynyddoedd i fenywod.

## Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Mae dangosydd cenedlaethol rhif 2 yn cynnwys dwy elfen benodol:

- disgwyliad oes iach cyfartalog y boblogaeth gyfan;
- y bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig.

Mae disgwyliad oes iach yng Nghymru wedi aros yn sefydlog gydag ychydig iawn o newid yn y blynyddoedd diwethaf. Yn yr un modd, ychydig iawn o newid a fu yn y bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y cwintelau lleiaf a mwyaf difreintiedig.

Mae'r ffaith fod cysylltiad o hyd rhwng statws economaidd-gymdeithasol unigolyn a'i ddisgwyliad oes iach yn warth o ran cyfiawnder cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar anghydraddoldeb ac mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru yn cynnwys amcan llesiant i weithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.

Wrth ystyried y garreg filltir genedlaethol arfaethedig, ystyriwyd a ddylai'r garreg filltir ganolbwyntio ar un elfen benodol o'r dangosydd cenedlaethol ynteu a ddylai ganolbwyntio ar y ddwy ar yr un pryd. Yn dilyn adborth o ddigwyddiad bord gron i randdeiliaid a drefnwyd ar y cyd â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, daethom i'r casgliad y dylai'r garreg filltir gwmpasu'r ddwy elfen. Dewiswyd y dull hwn i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wrth gau'r bwlch rhwng y lleiaf a'r rhai mwyaf difreintiedig, ond hefyd i sicrhau ein bod yn osgoi'r posibilrwydd o gyflawni'r garreg filltir drwy 'ostwng y gwastad' yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Rydym am godi disgwyliad oes iach y boblogaeth gymaint â phosibl yn ystod oes y garreg filltir hyd at 2050. Gwyddom y bydd hyn yn her, ac er y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gael effaith wirioneddol ar gynyddu disgwyliad oes iach a chau'r bwlch, mae pen draw ar yr effaith y gallwn obeithio ei chael gan fod rhai o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddisgwyliad oes iach yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Ochr yn ochr â'r ystyriaethau hyn, rydym hefyd yn wynebu heriau oherwydd ansicrwydd ynghylch yr effaith y gallai COVID-19 ac ergydion mawr eraill ar gymdeithas, nad ydynt yn hysbys eto, eu cael ar ddata disgwyliad oes iach.

Yn ein digwyddiad bord gron i randdeiliaid gyda'r Ganolfan, ystyriwyd yr effaith y gallai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ei chael ar ddisgwyliad oes iach a'r bwlch yng Nghymru o ystyried y dulliau sydd gennym ac effaith COVID-19. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon, daethom i'r casgliad y dylem anelu at godi disgwyliad oes iach pawb, ond er mwyn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau (yn seiliedig ar farn arbenigwyr a fynegwyd yn y digwyddiad bord gron), dylem anelu at gau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050.

## Carreg Filltir 2:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 3 - Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw** | | | • | • | • | • | |

| | |
|---|---|
| **Carreg Filltir #2** | Cynyddu canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw i fwy na 97% erbyn 2050. |

### Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Yr 'ymddygiadau ffordd iach o fyw' ar gyfer oedolion yw: peidio â smygu, peidio ag yfed mwy bob wythnos na'r hyn a nodir yn y canllawiau, bwyta o leiaf bum dogn o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol, bod yn egnïol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol a chynnal mynegai màs y corff / pwysau iach.

Roedd y data diweddaraf a oedd ar gael (Ionawr-Mawrth 2021) yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod gan 93% o oedolion ddau ymddygiad iach neu fwy o ran ei ffordd o fyw.

O ddadgyfuno'r data fesul ymddygiad iach o ran ffordd o fyw:

- Dywedodd 86% o oedolion nad ydynt yn smygu ar hyn o bryd;
- Dywedodd 83% o oedolion nad ydynt yn yfed mwy na'r hyn a nodir yn y canllawiau wythnosol (hynny yw, yfed mwy nag 14 o unedau bob wythnos ar gyfartaledd);
- Dywedodd 31% o oedolion eu bod wedi bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol;
- Dywedodd 51% o oedolion eu bod wedi bod yn egnïol am o leiaf 150 munud yn yr wythnos flaenorol;
- Dywedodd 37% o oedolion bod ganddynt fynegai màs y corff / pwysau iach.

Addaswyd Arolwg Cenedlaethol 2020-21 oherwydd pandemig y coronafeirws (drwy gynnal cyfweliadau ffôn yn lle cyfweliadau wyneb yn wyneb a newid peth o'r cynnwys) ac felly ni ddylid cymharu canlyniadau ar gyfer ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol.

### Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Un o ddibenion sylfaenol y Ddeddf yw diogelu iechyd a llesiant pobl Cymru. Ein gweledigaeth a nodir yn Cymru Iachach yw y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach, a gwyddom y gall sicrhau bod gan bobl ddau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw gyfrannu at wireddu hyn.

Bydd y garreg filltir hon yn cyd-fynd â'r garreg filltir a fabwysiadwyd yn ystod yr ymgynghoriad 'cam un' a oedd yn ymwneud â dangosydd cenedlaethol rhif 5 ynghylch plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw.

Buom yn archwilio'r opsiynau ar gyfer y garreg filltir hon mewn digwyddiad bord gron i randdeiliaid a gynhaliwyd ar y cyd â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Yn ystod y sesiwn, roeddem yn deall pryderon rhai rhanddeiliaid ynghylch mabwysiadu'r un dull ar gyfer y dangosydd ynghylch ymddygiad iach oedolion o ran ffordd o fyw ag a wnaethom ar gyfer plant. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys yr amrywiaeth eang o ran nifer y bobl sy'n dilyn pob un o'r ymddygiadau ffordd iach o fyw unigol ac effaith

gymharol pob un ohonynt, nad yw'r dull hwn yn targedu'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn benodol ac y byddai'r garreg filltir yn dechrau o linell sylfaen gymharol uchel. Rydym wedi ystyried barn rhanddeiliaid yn ofalus.

Fel y bwriadwyd pan fabwysiadwyd y dangosydd cenedlaethol, credwn y dylai'r garreg filltir roi darlun cyflawn o iechyd a bod y budd iechyd mwyaf yn codi wrth dargedu'r rhai ag ymddygiad ffordd iach o fyw sero/un. Gwyddom hefyd fod nifer yr achosion o'r rhai sydd ag ymddygiad ffordd iach o fyw sero/un yn uwch yn y cwintelau mwyaf difreintiedig. Felly, gwyddom y bydd mabwysiadu dull gweithredu ar gyfer oedolion sy'n debyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer ymddygiadau ffordd iach o fyw plant ar gyfer dangosydd cenedlaethol rhif 5 yn golygu bod ein camau gweithredu yn anochel yn canolbwyntio ar y rhai yn y cwintelau mwyaf difreintiedig.

Rydym wedi ystyried y cyfle cymharol i Lywodraeth Cymru a phartneriaid annog/ysgogi mwy o oedolion i fabwysiadu ymddygiadau ffordd iach o fyw o'u cymharu â phlant. Credwn fod y sgôp a'r cyfleoedd i ddylanwadu ar y nifer sy'n mabwysiadu ymddygiadau ffordd iach o fyw o ran oedolion yn is nag ar gyfer plant ac o ganlyniad, rydym yn cynnig y dylai'r garreg filltir anelu at gynyddu canran yr oedolion ag ymddygiadau ffordd iach o fyw i fwy na 97% erbyn 2050.

## Carreg Filltir 3:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 29: Sgôr lles meddyliol cymedrig** | | | ● | ● | | | |
| **Carreg Filltir #3** | Gwella lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch yn lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050. | | | | | | |

## Newid i'r dull ar gyfer dangosydd cenedlaethol

Ar hyn o bryd mae dwy set ddata yn sail i Dangosydd Cenedlaethol 29, sgôr lles meddyliol cymedrig:

- y sgôr lles meddyliol cymedrig yn ôl Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS) ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd, a gasglwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru; ac
- ar gyfer plant (10-15 oed) y sgôr cymedrig gan ddefnyddio Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ), a gasglwyd drwy'r Arolwg Deall Cymdeithas.

Ni ellir cymharu'r ddwy set ddata hyn, gan eu bod yn mesur pethau gwahanol. Mae'r SDQ yn holiadur sgrinio ymddygiadol ar gyfer iechyd meddwl plant ac mae WEMWBS yn mesur sut mae person yn teimlo. Mae gan y set ddata SDQ hefyd faint sampl llawer llai o gymharu â data WEMWBS.

Lansiwyd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) yn 2019 ac mae'n cynnwys fersiwn fer o Raddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (SWEMWBS) ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed. Mae hon yn set ddata fwy cadarn na'r SDQ ac yn mesur lles meddyliol, felly rydym yn cynnig newid y ffynhonnell ddata ar gyfer plant o ran Dangosydd Cenedlaethol 29 a'r garreg filltir i'r SWEMWBS a gesglir drwy arolwg SHRN.

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Cyflwynir lles meddyliol cymedrig fel rhif ar raddfa rhwng 14 a 70 ar gyfer oedolion a 7 a 35 ar gyfer plant. Po uchaf yw'r sgôr, gorau oll yw'r lles meddyliol.

Mae'r data WEMWBS a SWEMWBS diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod y sgôr lles meddyliol cymedrig yn is i'r rhai sy'n byw yn y cwintelau mwyaf difreintiedig. Nid oes data ar gael ar gyfer 2020/21 gan nad oedd cwestiwn WEMWBS wedi'i gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol oherwydd COVID-19.

| | SGÔR WEMWBS | | |
|---|---|---|---|
| | Cymedr poblogaeth | Cwintel mwyaf difreintiedig | Cwintel lleiaf difreintiedig |
| 2016/17 | 50.9 | 49.3 | 52.2 |
| 2018/19 | 51.4 | 49.5 | 52.8 |

## Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Cesglir y data i gefnogi'r garreg filltir hon yn rheolaidd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ac felly disgwylir iddynt barhau i fod ar gael.

Wrth ystyried gwerthoedd posibl ar gyfer y garreg filltir, mae nifer o ffactorau i'w hystyried. Yn gyntaf, er bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gall sgoriau WEMWBS a SWEMWBS fod yn arwydd o iselder ysgafn a chlinigol, nid oes consensws ynghylch beth yw lles meddyliol 'da' ar lefel poblogaeth. Yn ail, gwyddom y bydd ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth yn ystod y garreg filltir yn effeithio ar lesiant (e.e. y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw ar hyn o bryd).

At hynny, mae hefyd yn ansicr pa mor hir y bydd effeithiau'r pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar lesiant meddyliol. O ganlyniad, mae'n anodd cyfrifo a phennu gwerth penodol cyflawnadwy i'r garreg filltir ar gyfer 2050.

Gyda hyn mewn golwg ac yn unol â'n hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd, nid oes gan y garreg filltir arfaethedig sgôr lles meddyliol cymedrig i anelu ato, ond yn hytrach uchelgais i ddileu'r bwlch o ran lles meddyliol cymedrig rhwng cwintelau mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru, sef tua 3 phwynt ar hyn o bryd, a hefyd i wella sgôr lles meddyliol cymedrig y boblogaeth gyfan.

## Carreg Filltir 4:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Cenedlaethol 10: Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen** | ● | | ● | ● | | | |

| | |
|---|---|
| **Carreg Filltir #4** | Gwella Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen, yng Nghymru erbyn 2035 ac ymrwymo i osod targed twf ymestynnol ar gyfer 2050 |


## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Icwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) yw'r swm o arian sydd gan aelwydydd ar gael i'w wario neu ei gynilo ar ôl i fesurau dosbarthiad incwm (er enghraifft trethi, cyfraniadau cymdeithasol, perchnogaeth eiddo, ac ati) gael effaith. Mae cyfanswm y GDHI yn mesur swm yr holl arian sydd ar gael i aelwydydd mewn ardal benodol tra bo GDHI y pen yn cael ei gyfrifo drwy rannu cyfanswm y GDHI â nifer y preswylwyr yn yr ardal honno. Gellir ei fynegi naill ai mewn punnoedd neu yn ôl mynegai'r DU (UK=100).

Gellid dadlau bod GDHI yn fesur gwell o safonau byw ar gyfer aelwydydd na Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen gan ei fod yn ystyried yr arian sydd ar gael ar gyfer gwariant, yn wahanol i GVA, sy'n mesur gwerth cynhyrchu, neu'r incwm a gynhyrchir gan unigolion neu gorfforaethau wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau mewn ardal.

Roedd GDHI y pen Cymru yn 2019 yn £17,263 sef yr ail isaf o blith 12 gwlad y DU a rhanbarthau Lloegr. Mae'r ffigur hwn yn 80.5% o ffigur GDHI y DU ar gyfer yr un cyfnod[1].

## Siart 1: GDHI y pen (£), 1997-2019





1 Noder: gan fod Llundain a De-ddwyrain Lloegr yn dylanwadu'n drwm ar ffigur GDHI y pen y DU, defnyddir maes meincnodi amgen sy'n hepgor y rhain er mwyn cymharu perfformiad Cymru

Mae ffigur GDHI y pen Cymru wedi gwaethygu'n gyffredinol, o'i gymharu â'r DU gyfan, yn ystod y gyfres amser sydd ar gael rhwng 1997-2019; mae'r bwlch wedi cynyddu o 12.6 pwynt canran (pc) i 19.5 pc.

Noder - bu oedi o ran cyhoeddi data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (rhagwelir y bydd data 2020 ar gael ym mis Medi 2022) felly wrth bennu unrhyw garreg filltir benodol, sy'n seiliedig ar werthoedd yn awr, byddai'n rhaid i hynny fod yn seiliedig ar ddata cyn COVID.

## Siart 2: GDHI y pen Cymru fel cyfran o'r DU a'r DU ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr, 1997-2019




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Incwm Gwario Gros Aelwydydd, ONS

## Heriau

Mae nifer o heriau o ran gosod carreg filltir genedlaethol ar GDHI ar hyn o bryd gan gynnwys yr argyfwng costau byw, chwyddiant uchel a rhagolygon twf isel ar gyfer 2024 gan Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (0.25%, i lawr o 1%)[2].

Ym mis Mai 2022, mae chwyddiant y DU ar ei uchaf ers 40 mlynedd, a'r bobl dlotaf sy'n cael ei taro galetaf gan brisiau cynyddol oherwydd eu bod yn gorfod gwario llawer mwy o gyllideb eu haelwyd ar nwy a thrydan.

Biliau cyfleustodau oedd yn gyfrifol am tua thri chwarter y cynnydd yn y gyfradd flynyddol yn Ebrill 2022.

Mae posibilrwydd y bydd cynnydd pellach yn y tymor byr mewn prisiau olew a nwyddau yn effeithio ar yr economi a gwyddom mai aelwydydd ag incwm is sy'n wynebu'r risg fwyaf o weld gostyngiad pellach mewn termau real yn 2022/23. Ar ddiwedd tymor arfaethedig presennol Senedd y DU, disgwylir i incwm fod 2% yn is nag yr oedd ar ei ddechrau, sy'n golygu mai dyma Senedd waethaf y DU mewn cof ar gyfer safonau byw yn ôl y Resolution Foundation.

Yn ogystal, rhagwelir y bydd effaith Cytundeb Masnach a Pharhad Llywodraeth y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn taro economi'r DU, gyda busnesau'n ei chael hi'n anodd masnachu yng ngwledydd yr UE neu'n wynebu cynnydd enfawr mewn costau a phrinder staff. Mae'r ymchwil [3] diweddaraf hefyd yn awgrymu bod Brexit wedi ychwanegu 6% at filiau bwyd Prydain.

## Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Rydym yn nodi Cenhadaeth Economaidd Cymru yn dilyn y pandemig ac wedi nodi gweledigaeth o'r hyn sy'n gwneud Cymru'n lle deniadol i fyw, astudio, gweithio a buddsoddi ynddo, gan gynnwys ansawdd bywyd mewn cenedl gynhwysol, agored a gwyrdd.

Rydym wedi cyhoeddi cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau sy'n darparu cynnig cyflogadwyedd a sgiliau cryf sy'n rhan hanfodol o'n tasg gyfunol i wneud Cymru'n atyniadol i fwy o bobl a busnesau.

Fe wnaethom hefyd osod y cerrig milltir cenedlaethol cysylltiedig canlynol fel rhan o'r cam cyntaf yn 2021

- bydd gan 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau ar lefel 3 neu uwch erbyn 2050
- bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050
- bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050
- dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur
- dileu'r bwlch cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dwysáu'r gwaith o annog a chodi ymwybyddiaeth o fanteision gwaith teg, amodau gwaith gweddus ac ansawdd swyddi, gan hyrwyddo arferion gorau a rôl gadarnhaol undebau llafur. Rydym hefyd yn cryfhau ein Contract Economaidd, felly mae twf cynhwysol, gwaith teg, datgarboneiddio a gwell iechyd meddwl yn y gwaith wrth wraidd popeth a wnawn, gan dargedu cymorth busnes a buddsoddiad at y rhai sy'n gosod ymrwymiadau clir i wella arferion busnes.

Rydym hefyd yn parhau i geisio dylanwadu ar hawliau, dyletswyddau ac amddiffyniadau cyflogaeth a gadwyd yn ôl a fydd yn effeithio ar weithwyr a gweithleoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod nifer o'r dylanwadau sylweddol ar GDHI megis trethi, budd-daliadau, darpariaeth pensiwn a'r mesurau i reoli chwyddiant[4] fel cyfraddau llog yn parhau y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

2 https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/2022/may-2022
3 https://ukandeu.ac.uk/wp-content/uploads/2022/04/UKICE-Supply-Chains-Report_Final.pdf
4 Nid yw GDHI yn cyfrif am chwyddiant ac felly byddai angen ystyried mesurau fel y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ochr yn ochr â'r mesur i asesu dilyniant incwm mewn 'termau real.'

Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd y mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad drostynt, megis y 'cyflog cymdeithasol', darparu gofal plant fforddiadwy, prydau ysgol am ddim, tocynnau rhatach ac ati – y bydd pob un ohonynt yn dylanwadu ar lefelau incwm gwario.

Rydym am osod uchelgais glir i dyfu GDHI yng Nghymru yn y tymor canolig tra hefyd yn ymrwymo i bennu targed gwerth tymor hwy penodol a fydd yn seiliedig ar ddata mwy diweddar a chadarn ar ôl y pandemig. Rydym am i'n targed hirdymor i Gymru fod mor ystyrlon ac uchelgeisiol â phosibl a theimlwn y bydd mynd ati fel hyn yn cefnogi'r dull hwnnw.

## Carreg Filltir 5:

| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 18: Tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU** | | • | • | • | • | • | • | • |
| **Carreg Filltir #5** | Lleihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig penodol (sy'n golygu mai hwy sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a'r rhai heb y nodweddion hynny, erbyn 2035. Ymrwymo i osod targed ymestynnol ar gyfer 2050. | | | | | | | |

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Rydym yn diffinio bod person yn byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw ar aelwyd lle mae cyfanswm incwm y cartref o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm cyfartalog aelwydydd y DU (fel y'i rhoddir gan y canolrif), ar ôl costau mewn perthynas â thai.

Daw data swyddogol ar dlodi incwm cymharol o'r set ddata Aelwydydd ac Incwm Is na'r Cyfartaledd (HBAI) a gynhyrchir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Effeithiwyd ar y gwaith o gasglu data ac ymatebion gan y pandemig, ac roedd goblygiadau i hynny o ran ansawdd y data a sut y cânt eu cyflwyno. O ganlyniad, y data dibynadwy diweddaraf ar gyfer Cymru yw'r rhai am y cyfnod a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

Rhwng 2017-18 a 2019-20, roedd 23% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn weddol sefydlog yng Nghymru ers dros 15 mlynedd.

Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau'n bodoli ar gyfer grwpiau sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig penodol sydd â chyfraddau uwch o dlodi incwm cymharol. Er enghraifft, mae data pellach wedi'u dadgyfuno o set ddata HBAI yn dangos y canlynol, yn ôl yr amcangyfrifon dibynadwy diweddaraf:

- Roedd 31% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol.
- Roedd plant a oedd yn byw ar aelwydydd lle'r oedd tri neu fwy o blant bron ddwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi incwm cymharol (46%), o gymharu â'r rhai a oedd yn byw ar aelwydydd â dau o blant.
- Roedd plant a oedd yn byw ar aelwydydd lle'r oedd y plentyn ieuengaf rhwng 0 a 4 oed yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi incwm cymharol (33%) nag aelwydydd â phlant 5 oed a throsodd.

- Aelwydydd unig riant oedd y math o deulu oedd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, sef 46%.
- Roedd 29% o bobl y mae pennaeth eu haelwyd yn dod o grŵp ethnig nad yw'n wyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o'i gymharu â 24% o'r rhai y mae pennaeth eu haelwyd yn dod o grŵp ethnig gwyn.
- Roedd 38% o blant a oedd yn byw mewn teulu lle'r oedd rhywun ag anabledd mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â 26% o'r rhai mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl.
- Roedd 31% o oedolion o oedran gweithio a oedd yn byw mewn teulu lle'r oedd rhywun ag anabledd mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â 18% o'r rhai mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Adnoddau Teulu (GTA) sydd yn hanesyddol wedi cael sampl blynyddol bach o tua 850 o aelwydydd yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu cryn ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon ar gyfer is-grwpiau poblogaeth llai. Fodd bynnag, bydd y sampl a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru yn cynyddu'n sylweddol o flwyddyn arolwg 2022-23. Wrth i'r cynnydd gronni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, dylai hyn arwain at setiau data cyfoethocach ar lefel Cymru, gan ganiatáu mwy o ddadansoddiadau o amcangyfrifon yn ôl nodweddion aelwydydd a nodweddion gwarchodedig. Dylai hyn alluogi asesiad mwy cywir o anghydraddoldebau rhwng is-grwpiau.

## Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Bydd y garreg filltir hon yn ein helpu i fesur ein cynnydd fel cenedl o ran sicrhau 'Cymru Fwy Cyfartal'. Atgyfnerthir hyn gan ystod o ddeddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i gymryd camau i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb:

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus a enwir yng Nghymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant sy'n nodi amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant ac yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Yn ymarferol, mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnwys eu hamcanion tlodi plant mewn dogfennau fel cynlluniau corfforaethol a chynlluniau llesiant. Mae gan gyrff eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Strategaeth Tlodi Plant.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei rheoleiddio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac mae'n berthnasol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus a enwir yng Nghymru. Ei nod yw dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig. Amlinellir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024.

Yn ogystal, yn 2021, cychwynnodd Llywodraeth Cymru y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol sy'n nodi ei hymrwymiad i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus a enwir yng Nghymru a'i nod yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd yn rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud penderfyniadau gwell, rhai sy'n rhoi ystyriaeth ganolog i anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Heriau

Yn yr un modd â'r garreg filltir genedlaethol GDHI arfaethedig, nid yn nwylo Llywodraeth Cymru y mae'r prif ddulliau polisi a chyllidol a fyddai'n ein galluogi i gyflawni'r newid sydd ei angen i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn lefelau tlodi yng Nghymru. Mae pwerau dros y system dreth a lles yn perthyn yn perthyn yn bendant i Lywodraeth y DU.

Mae rhaglen Llywodraeth y DU o ddiwygiadau treth a lles wedi cael effaith andwyol ar lefelau tlodi i'r rhai yr effeithir arnynt. Mae dadansoddiad o'r newidiadau wedi dangos mai'r bobl ar yr incwm isaf, at ei gilydd, sydd wedi gweld effaith negyddol hyn ar incwm aelwydydd, gyda llawer yn waeth eu byd yn ariannol.

Gwyddom hefyd fod ffactorau allanol, megis ein hymadawiad â'r Undeb Ewropraidd, effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw, wedi cael effaith niweidiol ar allu pobl i ymdopi'n ariannol.

Am y rhesymau hyn, nid ydym yn awgrymu gosod targed tlodi pwynt-i-bwynt ar gyfer lleihau'r ffigur tlodi cyffredinol ar gyfer Cymru. Yn hytrach, rydym yn cynnig ein bod yn datblygu dull amgen uchelgeisiol, ond realistig, gan ganolbwyntio ar yr agweddau hynny ar dlodi y gall Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt ac y teimlwn y byddent yn fwy cyraeddadwy.

Rydym yn cynnig y dylai'r garreg filltir amlinellu uchelgais glir i leihau'r bwlch tlodi yn y tymor canolig, rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig penodol (sy'n golygu eu bod yn fwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a phobl sydd heb y nodweddion hynny. Dylai'r garreg filltir hefyd ymrwymo i bennu targed gwerth tymor hwy penodol ar gyfer lleihau'r bwlch hwnnw, yn seiliedig ar y data diweddaraf a chan gyd-fynd â'n dull ar draws y llywodraeth ac ar draws cyrff cyhoeddus o fynd i'r afael â thlodi.

## Carreg Filltir 6:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 28: Canran y bobl sy'n gwirfoddoli** | | | | | ● | ● | ● |

| | |
|---|---|
| **Carreg Filltir #6** | Cynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli 10% erbyn 2050, gan ddangos statws Cymru fel cenedl sy'n gwirfoddoli |

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau gyda thua 12,000 o oedolion a ddewisir ar hap bob blwyddyn. Mae'r arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion, gan ofyn am brofiadau a safbwyntiau pobl. Cyn mis Mawrth 2020 roedd yr arolwg yn seiliedig ar gyfweliadau wyneb yn wyneb, ond ers hynny mae'r ymatebwyr wedi bod yn cymryd rhan dros y ffôn ac mae rhai cwestiynau ychwanegol yn cael eu gofyn ar-lein.

Ers 2016-17 mae'r cwestiwn am wirfoddoli wedi cael ei ofyn bob dwy flynedd. Gofynnir i ymatebwyr pa fathau o glybiau neu sefydliadau, os o gwbl, y maent yn rhoi o'u hamser iddynt am ddim ar hyn o bryd. Gall pobl wirfoddoli mewn mwy nag un lle. Yna gofynnir i wirfoddolwyr faint o oriau y maent wedi'u treulio'n gwirfoddoli yn y clybiau a'r sefydliadau hyn yn ystod y pedair wythnos flaenorol.

Mae'r dangosydd cenedlaethol yn dangos cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwirfoddoli

ar hyn o bryd ond nid yw'n adlewyrchu graddau'r gwirfoddoli hwnnw o ran amser nac yn ôl lle. Mae'r canlyniadau wedi aros yn gyson heb unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng blynyddoedd er gwaethaf rhywfaint o amrywiad bach yn yr amcangyfrifon pwyntiau. Yn 2016-17 a 2017-18, roedd 28% o bobl yn gwirfoddoli; yn 2019-20, 26%; ac yn arolwg ar-lein 2021-22, 29%.

## Dangosydd cenedlaethol

Yn ystod y gwaith i ddyfeisio'r garreg filltir a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, mae'r rhanddeiliaid a fu'n ymwneud â'r gwaith hwnnw wedi craffu ar eiriad a disgrifiad technegol y dangosydd ei hun. Maent wedi mynegi pryderon nad yw'r dangosydd, ar ei ffurf bresennol, yn caniatáu mesur gwirfoddolwyr yng Nghymru mewn ffordd wir a chynhwysfawr.

Yn benodol, dylai'r Dangosydd Cenedlaethol adlewyrchu'n gliriach beth yw manteision cymdeithasol a/neu amgylcheddol eu gweithredoedd a beth yw gwerth cyfannol gwirfoddoli i Gymru a dylai'r ffordd mae'r dangosydd wedi'i fapio (a ddangosir yn y tabl uchod) gael ei newid i ddangos cyfraniad gwirfoddoli ar draws pob un o'r saith Nod Llesiant Cenedlaethol, yn hytrach na dim ond y tri a ddangosir ar hyn o bryd (Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang).

Ychwanegwyd hefyd y dylai'r dangosydd ymdrin hefyd â gwirfoddoli gan bobl o dan 16 oed, sef grŵp sy'n cael ei eithrio gan y disgrifiad presennol.

Er nad oes amserlen ar gyfer gwneud newidiadau i'r dangosydd ar unwaith, nac i'r ffordd y mae wed'i fapio i'r saith Nod Llesiant, rydym yn awyddus i wybod a yw ymatebwyr yn cytuno bod angen adolygu'r disgrifiad cyfredol ohono, a'r ffordd y mae wedi'i fapio i'r Nodau. Dylid nodi byddai angen ymgynghori'n ffurfiol ar unrhyw newid i'r set o ddangosyddion cenedlaethol.

Wrth ddatblygu'r garreg filltir genedlaethol bresennol, byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried y potensial ar gyfer diweddariad i'r dangosydd yn y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod unrhyw garreg filltir yn cael ei diogelu gymaint â phosibl at y dyfodol.

## Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Wrth ddatblygu cynnig ar gyfer gwerth carreg filltir cenedlaethol, cawsom ein cyfyngu gan y data llinell sylfaen sydd ar gael ar hyn o bryd; felly ystyriwyd dau opsiwn ar gyfer dangos cynnydd mewn gwirfoddoli:

1. Cynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli.
2. Cynyddu nifer yr oriau y mae pobl yn gwirfoddoli.

Rydym yn cydnabod bod defnyddio "nifer yr oriau" fel metrig yn cynnig llawer o fanteision ar gyfer llunio polisïau (yn enwedig o ran cymharu data ar gyfer gwahanol grwpiau ac oherwydd y manteision y mae hefyd yn eu cynnig fel mesur procsi o'r budd cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n deillio o hynny, h.y. nod y gweithredu gan wirfoddolwyr).

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod y casgliad data cyfredol ynghylch oriau gwirfoddoli yn annigonol ar gyfer ein hanghenion ac felly mae perygl na fyddai'n cipio cyfran sylweddo o'r gweithgarwch gwirfoddoli. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gosod carreg filltir sy'n seiliedig ar ddata sy'n bodoli eisoes a phroses gadarn o gasglu data (e.e. data'r Arolwg Cenedlaethol) gan roi cyfrif am effaith anomaleddau un flwyddyn (e.e. cyrraedd targed yn ddamweiniol oherwydd digwyddiad brys).

O ganlyniad, teimlwn mai defnyddio ffigur "canran y bobl sy'n gwirfoddoli" fyddai'r dull mwyaf priodol ar hyn o bryd o bennu ein huchelgais a'n targed hirdymor.

Ein bwriad yw i'r broses o gasglu data esblygu dros amser ac arwain at gasglu'r data oriau yn fwy cywir hefyd, gan roi darlun mwy cyflawn o gynnydd o ran gwirfoddoli yng Nghymru.

Mae'r gwelliant hwn o ran casglu data ochr yn ochr â'r posibilrwydd o ddiwygio ac ehangu'r dangosydd cenedlaethol yn debygol o olygu y byddwn yn diweddaru'r garreg filltir a gynigir ar hyn o bryd rywbryd yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rydym yn teimlo y byddai defnyddio "canran y bobl sy'n gwirfoddoli" yn caniatáu i'r amrywiaeth o wirfoddoli gael ei chipio'n ddigonol ac, yn amodol ar "lyfnhau" y data'n flynyddol (i sicrhau cynrychiolaeth deg sy'n ystyried unrhyw gynnydd annodweddiadol mewn gweithgarwch, megis mewn ymateb i'r pandemig diweddar) fyddai'r dull pontio mwyaf synhwyrol. Drwy gasglu ac adrodd ar ddwy ffrwd ddata sy'n gorgyffwrdd (e.e., mesur canran ac, yn y pen draw, oriau), gallwn drosglwyddo i fesur cwbl briodol ar ôl i'r dangosydd gael ei ailddiffinio.

Rydym yn gweithio i fireinio a chwblhau'r model/meini prawf ar gyfer pennu llinell sylfaen a phroses ar gyfer casglu data yn y dyfodol, ond mae dadansoddiad cychwynnol o ddata'r Arolwg Cenedlaethol yn dangos bod y ganran bresennol o bobl sy'n gwirfoddoli yn weddol sefydlog ar 27% neu oddeutu hynny ac y byddai cynnydd o 10% i'r 27% hwn, i 30%, erbyn 2050 yn darged uchelgeisiol ond realistig, gan sicrhau bod Cymru ymhlith gwledydd blaenllaw'r byd fel cenedl o wirfoddolwyr.

Mewn gwledydd lle mae'n ymddangos bod gwirfoddoli'n digwydd yn llwyddiannus, megis Seland Newydd a Chanada, mae'n ymddangos bod terfyn naturiol i lefelau gwirfoddoli, sy'n dangos yr angen i fod yn realistig wrth bennu targedau cerrig milltir os dechreuir o linell sylfaen o weithgarwch sydd eisoes yn uchel.

Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r garreg filltir genedlaethol hon byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Arweinyddiaeth Traws-Sectoraidd ar Wirfoddoli (VCSLG) a rhanddeiliaid eraill i benderfynu ar y ffordd orau o fonitro ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd a sut y gallwn ddefnyddio data cyd-destunol ategol yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddangos manteision terfynol gwirfoddoli a phatrymau gweithredu gwirfoddoli yng Nghymru. (e.e. rhyng-genedlaethau, sectoraidd, economaidd-gymdeithasol, ac ati.)

Bydd unrhyw garreg filltir genedlaethol yn cael ei chynllunio i ddangos Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol gan ddefnyddio cymaryddion rhyngwladol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, a bydd yn rhan annatod o unrhyw bolisi gwirfoddoli newydd a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru.

## Carreg Filltir 7:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 33: Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol** | ● | ● | ● | | | | ● |

| | |
|---|---|
| **Carreg Filltir #7** | Bydd perfformiad ynni pob cartref yng Nghymru yn ddigonol ac yn gost-effeithiol erbyn 2050 |

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?

Cynhaliwyd asesiad diweddaraf Cymru gyfan o effeithlonrwydd ynni cartrefi fel rhan o Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Arolwg Cyflwr Tai Cymru (effeithlonrwydd ynni anheddau): Ebrill 2017 i Fawrth 2018 | LLYW. CYMRU. Bryd hynny, amcangyfrifwyd bod gan 80% o gartrefi EPC band D neu uwch.

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddwyd amcangyfrifon wedi'u modelu ar gyfer tlodi tanwydd yng Nghymru: Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru (prif ganlyniadau): ym mis Hydref 2021 | LLYW. CYMRU. Ym mis Hydref 2021:

- Amcangyfrifwyd bod 14% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd, sy'n cyfateb i aelwydydd.
- Amcangyfrifwyd bod 3% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol;
- Amcangyfrifwyd bod 11% o aelwydydd mewn perygl o dlodi tanwydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu ffrwd ddata i ddarparu amcangyfrifon o effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru a thlodi tanwydd yn rheolaidd..

## Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Er mwyn helpu pobl Cymru i reoli costau gwresogi eu cartrefi ac er mwyn cyflawni ymrwymiad cyfreithiol Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net, mae'n bwysig ein bod yn newid ac yn gwella'r ffordd y mae pobl yn defnyddio ynni yn eu cartrefi.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, rydym wedi gosod y sylfeini deddfwriaethol ar gyfer Cymru lanach, decach a chryfach, gan gynnwys drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Cymru wedi dilyn y wyddoniaeth yn gyson, gan ddechrau yn 2016 gyda tharged ar gyfer gostyngiad o 80% yn ein hallyriadau erbyn 2050. Yn 2019 fe wnaethom dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd i gynyddu ein huchelgais i 95% yn fuan ar ôl i'r Senedd ddod yn Senedd gyntaf y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019. Ym mis Mawrth 2021, cytunodd y Senedd i osod targed sero net sy'n gyfreithiol rwymol.

Yn 2019, cartrefi Cymru oedd yn gyfrifol am 10% o allyriadau Cymru. Mae'r allyriadau o gartrefi Cymru bron i gyd (95%) yn allyriadau carbon deuocsid. Caiff y rhain eu cynhyrchu gan y ffordd y mae ynni'n cael ei ddefnyddio yng nghartrefi Cymru. Er mwyn ymateb i her yr argyfwng newid yn yr hinsawdd, mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn cael gafael ar ynni ac yn ei ddefnyddio, er mwyn bod yn fwy effeithlon o ran ynni, gan gynnwys drwy wneud newidiadau i'n cartrefi i sicrhau eu bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Wrth wneud y newidiadau hynny, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod cyflenwadau ynni fforddiadwy ac effeithlon ar gael o hyd i bobl sy'n byw yng nghartrefi Cymru. Bydd hyn yn golygu ein bod yn cyrraedd ein targedau newid yn yr hinsawdd mewn ffordd nad yw'n cael effaith negyddol ar drigolion Cymru o ran cost nac effeithlonrwydd.

Rydym eisoes wedi cychwyn sawl rhaglen waith a fydd yn ein helpu i gyrraedd y garreg filltir hon. Mae'r Rhaglen Cartrefi Cynnes bresennol yn rhoi cyngor ar ynni i gartrefi yng Nghymru ac yn dilyn dull 'ffabrig yn gyntaf' wrth ddarparu mesurau defnyddio ynni'n effeithlon i gartrefi cymwys sy'n cael trafferth gyda chost biliau ynni uchel, gan wneud cartrefi'n gynhesach, yn fwy cyfforddus ac yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. Cafodd y rhaglen ei lansio yn 2009-10, ac mae mwy na £394m wedi'i fuddsoddi i wella effeithlonrwydd ynni cartref gan roi budd i fwy na 67,100 o gartrefi. Yn ogystal, mae dros 160,000 o gartrefi wedi cael cyngor diduedd am ddim ar sut i wella eu heffeithlonrwydd ynni domestig a lleihau eu biliau tanwydd. Rydym yn ystyried sut i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a datgarboneiddio ein cartrefi yn dilyn yr ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes, a ddaeth i ben ar 1 Ebrill, i lywio fersiwn nesaf y Rhaglen, y disgwylir iddi ddechrau yng ngwanwyn 2023.

Bydd Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021, “Creu Cartrefi a Lleoedd Hardd”, yn gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi cymdeithasol yn sylweddol ac yn lleihau allyriadau carbon drwy fynnu safonau ffabrig uwch a symud oddi wrth ddefnyddio tanwydd ffosil ar gyfer gwresogi a dŵr poeth ym mhob cartref cymdeithasol newydd.

Mae’r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio eisoes wedi darparu £70m o gyllid i gefnogi datgarboneiddio cartrefi cymdeithasol newydd yng Nghymru, gan dreialu’r llwybrau mwyaf priodol, effeithlon a chost-effeithiol i ddatgarboneiddio stoc tai amrywiol Cymru, a deall y newid diwylliannol ac ymddygiad sydd ei angen i ymgorffori datgarboneiddio preswyl ar draws cymdeithas yng Nghymru. Defnyddir y gwersi a ddysgwyd o’r rhaglen hon i lywio ymyriadau ar draws y gwahanol ddeiliadaethau tai, ac mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo £150m arall dros y tair blynedd nesaf i gyflawni hyn.

Mae’r garreg filltir hon yn cydbwyso’r angen i wneud newidiadau i gartrefi Cymru er mwyn mynd i’r afael â’r argyfwng newid yn yr hinsawdd, gan amddiffyn trigolion y wlad rhag cynnydd enfawr mewn costau i’w biliau ynni. Bydd y rhaglenni sydd eisoes ar waith yn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r garreg filltir hon ond gan gydnabod na fyddai hi – mewn maes sy’n newid mor gyflym, lle mae technolegau newydd a ffyrdd newydd o ddarparu ynni yn dod i’r amlwg – yn briodol gwneud ymrwymiadau tymor hwy ynghylch llwybrau cyflawni penodol.

## Beth mae’r data yn ei ddweud wrthym?

Mae’r dangosydd yn mesur tueddiadau mewn rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghymru fel y nodir yn adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae adran 7 yn rhestr o’r organebau byw sydd o’r pwys mwyaf er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

Lluniwyd y dangosydd ar sail setiau data diweddaraf y Cynllun a’r Gymdeithas Gofnodi Cenedlaethol. Mae hyn yn cyfuno amcangyfrifon blynyddol yn un dangosydd newid wrth ddosbarthu rhywogaethau blaenoriaeth (adran 7) dros amser.

Dros y cyfnod tymor hir (1970-2016), roedd y mynegai newid dosbarthiad ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth adran 7 yng Nghymru wedi gostwng i 87% o’i werth sylfaenol yn 1970. Ystyrir bod hyn yn ostyngiad ystadegol arwyddocaol ac felly asesir bod y dangosydd yn gostwng. Dros y cyfnod hirdymor hwn, dangosodd 16% o rywogaethau gynnydd cryf neu wan a dangosodd 34% ddirywiad cryf neu wan.

Dros y cyfnod tymor byr (2011-2016), cynyddodd gwerth y dangosydd o 85 i 87 ac fe’i haseswyd yn sefydlog. Rhwng 2011 a 2016, dangosodd 35% o rywogaethau gynnydd cryf neu wan a dangosodd 19% ddirywiad cryf neu wan.

## Carreg Filltir 8:

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 44: Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru** | • | • | | | • | • | • |
| **Carreg Filltir #8** | Gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a’u hadferiad yn amlwg erbyn 2050 | | | | | | |

## Pam y garreg filltir genedlaethol hon?

Mae'r garreg filltir hon yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ffordd yr ydym yn ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru, a sut rydym wedi adrodd ar weithredu ac wedi'i lywio fel rhan o'n fframwaith deddfwriaethol a'r dull ecosystem rydym wedi'i ddatblygu.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gweinidogion Cymru yn nodi ein huchelgais sef: 'Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.'

Bydd ymrwymiad i wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 yn golygu bod garreg filltir hon yn cydweddu â chyfnod adrodd Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn 2030; a bydd yn bwynt cyfeirio pwysig i olrhain y llwybr at adferiad erbyn 2050.

Adran 3

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Adran A – Cerrig Milltir Cenedlaethol

### Cwestiwn 1

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gynigir ar gyfer dangosydd Rhif 2 – Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig?

b) Os ydych, ond yr hoffech weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

### Cwestiwn 2

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gynigir ar gyfer dangosydd Rhif 3 – Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw?

b) Os ydych, ond yr hoffech weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

### Cwestiwn 3

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gynigir ar gyfer dangosydd Rhif 29 – Sgôr lles meddyliol cymedrig?

b) Os ydych, ond yr hoffech gael weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol a gynigir?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

### Cwestiwn 4

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gyngirir ar gyfer dangosydd Rhif 10 – Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen

b) Os ydych, ond yr hoffech weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol a gynigir?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

### Cwestiwn 5

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gynigir ar gyfer dangosydd Rhif 18 – Tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU?

b) Os ydych, ond yr hoffech weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol a gynigir?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

### Cwestiwn 6

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gynigir ar gyfer dangosydd Rhif 28 – Canran y bobl sy'n gwirfoddoli?

b) Os ydych, ond yr hoffech weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol a gynigir?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 7

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gynigir ar gyfer dangosydd Rhif 33 – Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol?

b) Os ydych, ond yr hoffech weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol a gynigir?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 8

a) Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir genedlaethol a gynigir ar gyfer dangosydd Rhif 44 – Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru?

b) Os ydych, ond yr hoffech weld rhai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol a gynigir?

c) Os nad ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 9

a) Sut, yn eich barn chi, y dylem roi gwybod i bobl a chymunedau Cymru am y cerrig milltir cenedlaethol?

## Cwestiwn 10

a) Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth ar yr effeithiau a'r cyfleoedd posibl o ran cyflawni'r holl gerrig milltir cenedlaethol, ac yn benodol, unrhyw ddibyniaethau rhyngddynt.
Er enghraifft, gallai gwneud cynnydd tuag at gyflawni carreg filltir genedlaethol gael effaith anfwriadol ar garreg filltir genedlaethol arall, neu efallai fod cyfleoedd i sicrhau manteision ehangach rhwng cerrig milltir cenedlaethol. Defnyddiwch y lle hwn i ddarparu tystiolaeth o'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn.

## Cwestiwn 11

a) Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

b) Pa effeithiau y byddent yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

## Cwestiwn 12

a) Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.